**Gwybodaeth am Gyfweliadau**
**BSc (Anrh) Gwyddor Gofal Iechyd**

Diolch am eich cais i astudio Gwyddor Gofal Iechyd. Fel rhan o'n proses recriwtio, gwahoddwn ymgeiswyr i fynychu cyfweliad ac i adolygu cyfres o senarios a gaiff eu trafod yn ystod y cyfweliad (darperir y senarios ar ddiwedd y llythyr hwn).

Cynhelir y cyfweliadau trwy Microsoft Teams felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gyfarwydd â sut i ddefnyddio Microsoft Teams cyn eich cyfweliad.

Bydd y cyfweliad yn para tua 20 munud ac fe'i cynhelir gan aelod o'r tîm darlithio a Gwyddonydd Biofeddygol/Gwyddonydd Gofal Iechyd gweithredol sy'n ymwneud â hyfforddi myfyrwyr. Cynlluniwyd y cyfweliad strwythuredig i asesu eich gwerthoedd fel gweithiwr y GIG posibl yn y dyfodol, felly rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â gwir ddiddordeb ac ymrwymiad i'r proffesiwn. Cyfeiriwch at y senarios ar y dudalen ganlynol os gwelwch yn dda.

**Gallwch ddod o hyd i ddyddiad eich cyfweliad ar eich Hwb UCAS, a byddwch hefyd yn derbyn gwahoddiad Microsoft Teams trwy e-bost sawl diwrnod cyn y disgwylir i'r cyfweliad gael ei gynnal. Bydd y gwahoddiad e-bost yn nodi amser eich cyfweliad a phwy fydd y cyfwelwyr. Bydd hefyd yn darparu dolenni gwe i Sgwrs Cwrs a gwybodaeth arall am y rhaglen a'r brifysgol.**
**Yn ystod y cyfweliad, fe'ch anogwn i sicrhau bod eich fideo a'ch sain yn aros ymlaen bob amser gan fod hyn yn galluogi amgylchedd mwy gafaelgar i chi ac i ninnau fel cyfwelwyr.**

Os oes modd ichi fynychu ar y dyddiad a roddwyd, cadarnhewch hynny trwy **www.ucas.com/students** cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Os na allwch fynychu ac yr hoffech ofyn am ddyddiad gwahanol, anfonwch e-bost at **newstudent_interviews@cardiffmet.ac.uk.** Fel arall, gallwch gysylltu â Derbyniadau'n uniongyrchol ar 029 2041 6010. Yn anffodus, ni allwn ystyried ymgeiswyr na allant fynychu'r cyfweliad.

Dylid nodi unrhyw anghenion dysgu penodol yn glir o flaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol. Os hoffech i'ch cyfweliad fod drwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch wybod inni o flaen llaw fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yr eiddoch yn gywir,

V Bradley

Dr. Victoria Bradley
Cyfarwyddwr Rhaglen BSc (Anrh) Gwyddor Gofal Iechyd
Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

**I baratoi ar gyfer eich cyfweliad sydd i ddod ar gyfer y rhaglen gradd Gwyddor Gofal Iechyd, ystyriwch y senarios canlynol os gwelwch yn dda.**

Mae hi 5 mlynedd yn y dyfodol, cawsoch le ar y rhaglen gradd Gwyddor Gofal Iechyd, fe wnaethoch raddio'n llwyddiannus ac rydych nawr yn gweithio mewn labordy patholeg GIG Cymru.

**Senario 1**

Mae eich cymydog, Mrs Smith, yn dweud wrthych ei bod yn poeni am brawf gwaed a gafodd yn y feddygfa ychydig ddyddiau'n ôl, a ydych chi'n:

A) Dweud wrthi nad oes dim i boeni amdano, byddent wedi ffonio os oedd unrhyw beth o'i le
B) Ei chynghori i gysylltu â'i meddygfa teulu i siarad am ei phrawf oherwydd gallant esbonio'r canlyniad a chynghori ar unrhyw driniaeth a allai fod ei hangen
C) Dweud wrthi y byddwch yn chwilio am ei phrawf heddiw yn y gwaith ac yn rhoi gwybod iddi am y canlyniadau pan fyddwch yn cyrraedd adref heno.

**Senario 2**

Rydych yn digwydd cwrdd â'ch Ewythr Bob yn y maes parcio yn yr ysbyty yr ydych yn gweithio ynddo, a ydych chi'n:

A) Mynd draw a dweud helo, gan ofyn pam ei fod yma
B) Mynd adref a ffonio eich Mam i ddweud eich bod wedi gweld eich Ewythr Bob yn yr ysbyty
C) Dweud helo, a gwneud eich ffordd at eich gwaith

**Senario 3**

Rydych ar ganol cyflawni prawf brys ar fabi a anwyd yn gynnar, nid oes digon o sampl i ailadrodd y prawf ar achlysur arall. Mae'r larwm tân yn seinio, a ydych chi'n:

A) Parhau â'r hyn rydych chi'n ei wneud nes bod y prawf wedi'i gwblhau
B) Stopio'r hyn rydych chi'n ei wneud ar unwaith a gadael yr adeilad
C) Gofyn i gydweithiwr os ydynt yn gwybod ble mae'r tân

**Senario 4**

Rydych chi'n gwneud camgymeriad a fydd yn golygu y bydd y canlyniadau prawf anghywir yn cael eu hanfon allan, bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar driniaeth cleifion, a ydych chi'n:

A) Esgus nad ydych wedi sylwi a gadael i rywun arall ddatrys y broblem
B) Ceisio cuddio eich camgymeriad
C) Rhoi gwybod i'ch goruchwyliwr ar unwaith a gofyn am gymorth i gywiro'r camgymeriad

**Senario 5**

Gofynnir ichi gyflawni prawf nad ydych yn siŵr ohono ac nad ydych wedi cael eich hyfforddi i'w wneud, a ydych chi'n:

A) Cyflawni'r prawf yn y modd y credwch y dylid ei wneud
B) Dilyn y cyfarwyddiadau a ddarparwyd er nad ydych yn hyderus o ran yr hyn y dylech ei wneud
C) Esbonio eich bod chi'n ansicr sut i wneud y prawf a gofyn i rywun ddangos ichi sut i'w wneud.